# Adroddiad Perfformiad Integredig Caerdydd a'r Fro

Diweddariad Iechyd y Cyhoedd Gorffennaf 26

Dychwelyd i'r Brif Ddewislen

## Blaenoriaethau Caerdydd a'r Fro ac Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol

Dychwelyd i Ddewislen yr Adran

| Blaenoriaeth | Crynodeb o Berfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Ar darged? |
|---|---|---|---|
| Diogelu Iechyd | **Heintiau anadlol tymhorol**<br><br>**Brechu** – COVID-19, y ffliw a'r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV)<br><br>Dechreuodd ymgyrch COVID-19 y Gwanwyn ar 1 Ebrill 2026 (dechreuodd y cyflwyniad yng Nghaerdydd a'r Fro ar 13 Ebrill)<br>• Ar 2 Gorffennaf 2026, roedd 32,307 allan o 58,533 o unigolion yn y boblogaeth gymwys wedi cael eu brechu. Mae hwn yn gyfradd derbyn o 51.6%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 50.7%. Daeth rhaglen y gwanwyn COVID-19 i ben ar 30 Mehefin 2026 | COVID-19: 1 Ebrill – 2 Gorffennaf 2026 | COVID-19: Islaw'r targed |
| | • Dechreuodd ymgyrch **ffliw'r** Hydref ar 1 Medi 2025 ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol o dan 65 oed, babanod, plant, pobl ifanc a menywod beichiog. Dechreuodd y rhaglen ar 1 Hydref 2025 ar gyfer pob grŵp poblogaeth cymwys arall a daeth i ben ar 31 Mawrth 2026.<br>    • Cafodd 67,897 allan o 94,751 o drigolion yn BIPCF 65 oed a hŷn eu brechu. Mae hwn yn gyfradd derbyn o 71.7%, sy'n hafal i gyfartaledd Cymru gyfan, ond islaw'r targed cenedlaethol o 75%. Roedd bwlch o 19% yn y nifer a gymerodd ran rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig.<br>    • Cafodd 33,287 allan o 74,852 o drigolion yn BIPCF rhwng 16 a 64 oed ac mewn perygl clinigol eu brechu. Mae hwn yn gyfradd derbyn o 44.5%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 43.2%. Roedd bwlch o 13.7% yn y nifer a gymerodd ran rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig. | Y Ffliw: 1 Hydref 2025 - 31 Mawrth 2026 | Y Ffliw: Islaw'r targed lleol a chenedlaethol. |
| | • Cyflwynwyd y rhaglen frechu **RSV** ar 1 Medi 2024 ar gyfer oedolion hŷn wrth iddynt droi'n 75 oed a menywod beichiog ar ôl 28 wythnos o feichiogrwydd. Cyflwynwyd ymgyrch dal i fyny untro 12 mis ar 1 Medi 2024 i dargedu unigolion rhwng 75 a 79 oed. Cafodd yr ymgyrch dal i fyny untro hon ei diwygio ym mis Awst 2025 fel y byddai'r unigolion hyn yn parhau i fod yn gymwys am gyfnod amhenodol. Ehangwyd y rhaglen ym mis Ebrill 2026 i gynnwys pob oedolyn 80 oed a hŷn a phob preswylydd mewn cartref gofal i oedolion hŷn. | RSV Carfan arferol: 1 Medi 2025 – 31 Mai 2026 | RSV: Islaw'r targed cenedlaethol. |
| |     • Ym mis Mehefin 2026, roedd 2,699 allan o 3,065 o unigolion a gyrhaeddodd eu pen-blwydd yn 75 oed rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025 wedi cael eu brechu. Mae hwn yn gyfradd derbyn o **68.1%**, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan o 62.8%. Mae hyn islaw'r targed cenedlaethol o 70%.<br><br>    • Ar gyfer rhaglen dal i fyny RSV (poblogaeth breswyl 75 i 79 oed ar 1 Medi 2024), mae 13,645 allan o 18,177 o unigolion wedi cael eu brechu hyd yn hyn. Mae hwn yn gyfradd derbyn o **75.1%**, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan o 71.8% a'r gyfradd derbyn uchaf ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru.<br><br>    • Ar gyfer ehangu'r RSV i oedolion 80 oed a hŷn o 1 Medi 2024, mae'r gyfradd derbyn yn 52.8% (data Mehefin 2026) | RSV Dal i fyny: 1 Medi 2024 - heddiw | RSV: Uwchlaw'r targed |

### Data

**Table 2b.** Coverage of the 2026 Spring COVID-19 vaccination campaign in eligible population, counting those alive and resident in Wales as at 02/07/2026, by Local Health Board of residence.

| Local Health Board of Residence | Eligible population (n) | Vaccinated (n) | Coverage (%) | Of those vaccinated, number with no previous doses (n) |
|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan UHB | 81,301 | 41,583 | 51.15 | 69 |
| Betsi Cadwaladr UHB | 107,815 | 54,830 | 50.86 | 175 |
| Cardiff and Vale UHB | 58,533 | 30,207 | 51.61 | 87 |
| Cwm Taf Morgannwg UHB | 59,237 | 29,695 | 50.13 | 48 |
| Hywel Dda UHB | 63,315 | 30,119 | 47.57 | 119 |
| Powys THB | 23,307 | 12,483 | 53.56 | 61 |
| Swansea Bay UHB | 52,014 | 26,830 | 51.58 | 47 |
| All Wales | 445,522 | 225,747 | 50.67 | 606 |

***Table 4.3.2** Uptake of influenza immunisation in Wales for the 2025/26 season in patients aged 65 years and older, by local health board, comparing patients in the most deprived and least deprived quintiles of areas*

| Local Health Board | Denominator (n) | Numerator (n) | Uptake (%) | Uptake in most deprived areas (%) | Uptake in least deprived areas (%) | % Gap |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan UHB | 132,066 | 96,376 | 73.0 | 65.8 | 79.3 | 13.5 |
| Betsi Cadwaladr UHB | 175,152 | 129,086 | 73.7 | 66.3 | 78.7 | 12.4 |
| Cardiff and Vale UHB | 94,751 | 67,897 | 71.7 | 59.1 | 78.1 | 19.0 |
| Cwm Taf Morgannwg UHB | 96,611 | 70,072 | 72.5 | 68.1 | 78.3 | 10.2 |
| Hywel Dda UHB | 105,638 | 74,118 | 70.2 | 62.7 | 74.8 | 12.1 |
| Powys THB | 39,894 | 27,509 | 69.0 | 69.6 | 79.0 | 9.4 |
| Swansea Bay UHB | 86,970 | 59,312 | 68.2 | 61.3 | 73.8 | 12.5 |
| All Wales | 731,082 | 524,370 | 71.7 | 64.4 | 77.7 | 13.3 |

***Table 4.3.3** Uptake of influenza immunisation in Wales for the 2025/26 season in patients aged 16 to 64 years at clinical risk, by local health board, comparing patients in the most deprived and least deprived quintiles of areas*

| Local Health Board | Denominator (n) | Numerator (n) | Uptake (%) | Uptake in most deprived areas (%) | Uptake in least deprived areas (%) | % Gap |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan UHB | 102,112 | 45,135 | 44.2 | 37.9 | 52.2 | 14.3 |
| Betsi Cadwaladr UHB | 110,831 | 47,319 | 42.7 | 35.4 | 48.2 | 12.8 |
| Cardiff and Vale UHB | 74,852 | 33,287 | 44.5 | 38.1 | 51.8 | 13.7 |
| Cwm Taf Morgannwg UHB | 74,966 | 33,745 | 45.0 | 41.5 | 50.2 | 8.7 |
| Hywel Dda UHB | 61,843 | 27,505 | 44.5 | 36.1 | 49.4 | 13.3 |
| Powys THB | 19,536 | 8,801 | 45.1 | 42.4 | 47.9 | 5.5 |
| Swansea Bay UHB | 59,550 | 21,859 | 36.7 | 33.1 | 42.7 | 9.6 |
| All Wales | 503,690 | 217,651 | 43.2 | 37.3 | 49.5 | 12.2 |

**Table 1.1.3 Uptake of RSV immunisation in those reaching their 75th birthday between 1st September 2024 and 31st August 2025 (first year routine cohort), by Local Authority of residence.**

| Local Authority | Denominator | Vaccinated | Uptake (%) |
|---|---|---|---|
| Cardiff | 2,618 | 1,755 | 67.0% |
| Vale of Glamorgan | 1,347 | 944 | 70.1% |
| **Cardiff and Vale UHB** | **3,965** | **2,699** | **68.1%** |

Ffynhonnell: Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy ICC

# Blaenoriaethau Caerdydd a'r Fro ac Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol



| Blaenoriaeth | Crynodeb o Berfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Ar darged | Data |
|---|---|---|---|---|
| Diogelu Iechyd | **Imiwneiddio plentyndod arferol**<br>• Yn gyfredol erbyn 4 oed<br>  • Rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2026, mae **79.9%** o blant wedi cael eu brechu erbyn 4 oed.<br>  • Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (80.8%) ac yn is na chyfartaledd Cymru Gyfan o 84.4%.<br><br>• Yn gyfredol erbyn 5 oed<br>  • Rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2026, mae **85%** o blant wedi cael eu brechiadau erbyn 5 oed.<br>  • Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (85.3%) ac yn is na chyfartaledd Cymru Gyfan o 87.5%.<br><br>• HPV erbyn 15 oed<br>  • Rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2026, roedd **75.6%** o blant a gyrhaeddodd 15 oed wedi cael y brechlyn HPV.<br>  • Mae hwn yn gynnydd ar y chwarter blaenorol (74.9%)<br>  • Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru gyfan o 76.2%. | Ionawr i Fawrth 2026 | Yn gyfredol erbyn 5 oed: Islaw'r targed lleol a chenedlaethol.<br><br>HPV erbyn 15 oed: Islaw'r targed lleol a chenedlaethol. | <br><br><br>Ffynhonnell data COVER chwarterol |



## Blaenoriaethau Caerdydd a'r Fro ac Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol



| Blaenoriaeth | Crynodeb o Berfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Ar darged | Data |
|---|---|---|---|---|
| Gwella Iechyd | **Cynnal pwysau iach**<br>• Dangosodd data Rhaglen Mesur Plant 2024/25 ostyngiad bach mewn pwysau iach i 75.3%, o 77.7% y flwyddyn flaenorol (ar gyfer BIP Caerdydd a'r Fro). Y BIP oedd â'r lefel uchaf o bwysau iach o holl Fyrddau Iechyd Cymru ar gyfer 2024/25.<br>• Mae 42.1% o oedolion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg o bwysau iach (16-64 oed), o'i gymharu â 35.9% o gyfartaledd Cymru (Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSfW), 2024/25); mae 34.8% yn bwyta pum dogn o ffrwythau/llysiau y dydd, o'i gymharu â 32.9% yng Nghymru (NSfW, 2024/25) ac mae 65.0% yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol o fod yn egnïol am o leiaf 150 munud yr wythnos, o'i gymharu â 60.0% yng Nghymru (NSfW 2024/25). Nid oes data cymharol mewn gwledydd eraill yn y DU oherwydd bod dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio.<br>• Mae gwahaniaethau'n parhau rhwng ein cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig ac mae lefelau pwysau iach yn is, a lefelau bwyta ffrwythau a llysiau/gweithgarwch corfforol hefyd yn is yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd a'r Fro. | 2024/25 | **Cynnal pwysau iach:**<br><br>Heb gyrraedd y targed |  |



| Blaenoriaeth | Crynodeb o Berfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Ar darged | Data |
|---|---|---|---|---|
| Gwella iechyd | **Diabetes**<br>• **Anghydraddoldeb yn y defnydd**<br>  • Mae'r data diweddaraf (Ch1 26/27) yn dangos gostyngiad yn y bwlch rhwng y cyfraddau derbyn uchaf ac isaf ar lefel clwstwr o'i gymharu â'r llinell sylfaen (bwlch o 18.7%, o 27.2% Rhagfyr 25). Roedd y bwlch chwarter 4 25/26 yn 25.8%<br><br>• **HbA1c Pediatrig**<br>  • Mae Uned Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd wedi symud i gyfeiriad cadarnhaol o statws 'larwm' i statws 'rhybudd' yn adroddiad diweddaraf yr NPDA (data 2024-25)<br><br>• **Cleifion sydd wedi cael gwyliadwriaeth traed ac albwmin wrin wedi'i gofnodi**<br>  • Gwelliant araf ond cynaliadwy ers mis Ionawr 2026 o ran albwmin wrin a gofnodwyd; gostyngiad statig/bach diweddar mewn gwyliadwriaeth traed a gofnodwyd | Gorffennaf 26 | Islaw'r targed | Cleifion sydd wedi cael eu cadw mewn golwg ar eu traed/albwmin wrin wedi'i gofnodi - gweler y tablau data<br><br>Bwlch rhwng y cyfraddau derbyn uchaf (54.7%) a'r isaf (36.0%) o'r holl 8 proses gofal ar lefel clwstwr wedi'i leihau. Er bod y gyfradd derbyn isaf yn cynyddu, bu gostyngiad yn y gyfradd derbyn uchaf, o fewn y chwarter hwn yn unig. |



Blaenoriaethau Caerdydd a'r Fro ac Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol



| Blaenoriaeth | Crynodeb o Berfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Ar darged? | Data |
|---|---|---|---|---|
| Gwella Iechyd | **Ysmygu**<br>• Canran o boblogaeth ysmygu amcangyfrifedig Caerdydd a'r Fro a **wnaeth ymgais i roi'r gorau i ysmygu drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu** ('ysmygwyr a gafodd driniaeth')<br>  • Gwnaeth cyfanswm o 342 o ysmygwyr sy'n oedolion ymgais i roi'r gorau i smygu drwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu. Mae hyn yn cynrychioli 0.88% o'r targed blynyddol o 5% (Ch4 2025/26).<br>  • Mae'r nifer hwn yn welliant bach o'i gymharu â pherfformiad yn Ch3 ac mae'n uwch nag unrhyw chwarter yn y flwyddyn flaenorol (2024/25).<br>  • Cronnus Ch1 i Ch4 2025/26 = 3.39%<br><br>• Canran o ysmygwyr preswyl Caerdydd a'r Fro oedd yn 'ysmygwyr a gafodd driniaeth' a **gafodd eu dilysu gan CO fel rhai a lwyddodd i roi'r gorau iddi 4 wythnos** ar ôl y dyddiad rhoi'r gorau iddi<br>  • Pob gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu gyda'i gilydd = 33%<br><br>*Noder mae'r data diweddaraf uchod ar gyfer Ch4 2025/26 pan oedd y targed ar gyfer ysmygwyr a gafodd driniaeth yn 5%. O fis Ebrill 2026 cynyddodd y targed i 7.5%* | Ch4 2025/26 (y diweddaraf ym Mehefin 26) | Islaw'r targed<br><br>Islaw'r targed | <br> |

# Ysmygu

*Mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru*

| Rhif | Mesur perfformiad: | Cyfnod a Adroddwyd | Safon Perfformiad | Perfformiad yn ystod y Mis | Tuedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Canran yr oedolion sy'n ysmygu sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu<br><br>*Chwarter 4 2025/26*<br>• *239 Cymuned Helpa Fi i Stopio (gan gynnwys gwasanaeth ffôn)*<br>• *71 Fferyllfa Gymunedol Helpa Fi i Stopio*<br>• *32 Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Smygu yn yr Ysbyty* | Ch4 25/26 | Y Targed Blynyddol (2025/26) yw 5% o 38,800 o ysmygwyr n = **1940**<br><br>Y targed chwarterol yw 1.25% o 38,800 o ysmygwyr n = **475** | 0.88% (Ch4 25/26)<br>Islaw'r targed cenedlaethol<br>Yn cyrraedd y targed lleol 0.8 | **Ch1**<br>310 = 0.8% (Q1 25/26) | **Ch2**<br>318 = 0.82% (Q2 25/26) | **Ch3**<br>341= 0.88% (Q3 25/26) | **Ch4**<br>342= 0.88% (Ch 25/26) |
| 2. | Canran yr oedolion sy'n ysmygu sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu y cadarnhawyd drwy CO eu bod wedi rhoi'r gorau iddi ar ôl 4 wythnos.<br><br>*Chwarter 3 25/26*<br>• *42% Cymuned Helpa Fi i Stopio (ac eithrio gwasanaeth ffôn Helpa Fi i Stopio)*<br>• *0% Gwasanaeth Ffôn Helpa Fi i Stopio*<br>• *32% Fferyllfa Gymunedol Lefel 3*<br>• *50% Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Smygu yn yr Ysbyty* | Ch4 25/26 | 40% | 33% (Ch4 25/26)<br>Islaw'r targed | **Ch1**<br>38% (Ch1 25/26) | **Ch2**<br>32% (Ch2 25/26) | **Ch3**<br>32% (Ch3 25/26) | **Ch4**<br>33% (Ch4 25/26) |



# Camddefnyddio sylweddau

## *Mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru*

| Rhif | Mesur perfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Safon Perfformiad | Perfformiad yn ystod y Mis | Tuedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 |
| 3. | Canran y bobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau'r bwrdd iechyd sydd wedi cwblhau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol)*<br><br>*Mae'r mesur hwn yn cynnwys pobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio i **wasanaethau'r bwrdd iechyd, gwasanaethau a gomisiynwyd gan y bwrdd iechyd** (CAVDAS – Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro) a **Dyfodol** (ar gyfer pobl sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol) sy'n byw yn ardal Caerdydd a'r Fro. Gall y mesur hefyd gynnwys gwasanaethau eraill y tu allan i Gaerdydd a'r Fro, ond lle mae'r cleient yn byw yng Nghaerdydd a'r Fro.* | Ch4 2025/26 | Tuedd gwella dros 4 chwarter (2025/26)<br><br>80%<br>(2026/27) | Ch4 80.36% | 68.70% | 78.73% | 83.44% | 80.36% |

**Noder: Ers mis Awst 2025, mae'r fethodoleg ar gyfer y mesur hwn wedi newid ac mae'r holl ddata blaenorol wedi'i ddiwygio. Mae'r data hwn bellach yn eithrio cau niwtral, megis: wedi'u hatgyfeirio i rywle arall, wedi'u symud ymlaen, wedi'u symud i bresgripsiynu gan feddygon teulu a'r carchar, gan y tybir y bydd yr unigolion hyn yn dal i barhau â'u triniaeth mewn man arall.*

## *Mesurau eraill*

| Rhif | Mesur perfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Safon Perfformiad | Perfformiad yn ystod y Mis | Tuedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 |
| Ddim yn berthnasol | Canran y bobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio i **wasanaethau'r bwrdd iechyd a gwasanaethau a gomisiynwyd gan y bwrdd iechyd** sydd wedi cwblhau triniaeth am gamddefnyddio sylweddau (cyffuriau neu alcohol).<br><br>Mae'r mesur hwn yn cynnwys gwasanaethau'r bwrdd iechyd a'r rhai a gomisiynwyd gan y bwrdd iechyd (CAVDAS – Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro). | Ch4 2025/26 | Gweler uchod | Ch4 80.18% | 80.47% | 75.50% | 88.44% | 80.18% |
| | Canran y bobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio i **wasanaethau'r bwrdd iechyd** sydd wedi cwblhau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau (cyffuriau neu alcohol) | Ch4 2025/26 | Gweler uchod | Ch4 93.55% | 95.52% | 87.76% | 87.14% | 93.55% |



# Imiwneiddio a brechu

*Mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru*

| Rhif | Mesur perfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Safon Perfformiad | Perfformiad yn ystod y Mis | Tuedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | Canran y plant sydd wedi cael y brechiadau wedi'u hamserlennu erbyn 5 oed (pigiad atgyfnerthu cyn-ysgol '4 mewn 1', pigiad atgyfnerthu Hib/MenC a'r ail ddos MMR) | Ion - Maw 26 | 95% | 85% | **Ion-Maw** | **Ebr-Meh** | **Gorff-Medi** | **Hydref-Rhagfyr** |
| | | | | | 85% | | | |
| 5. | Canran y plant sy'n derbyn y brechiad rhag y Feirws Papiloma Dynol (HPV) erbyn 15 oed | Ion - Maw 26 | 90% | 75.6% | **Ion-Maw** | **Ebr-Meh** | **Gorff-Medi** | **Hyd-Rhag** |
| | | | | | 75.6% | | | |
| 6. | Canran y nifer sy'n cael y brechiad rhag y ffliw ymhlith oedolion 65 oed a hŷn<br><br>*Yn berthnasol yn ystod: 01.09.2025 - 31.03.2026* | 1 Hyd 25 - 31 Maw 26 | 75% | 71.7% | **01/10/25-31/03/26** | | | |
| | | | | | 71.7% | | | |
| 7. | Canran y nifer sy'n cael y Feirws Syncytiol Resbiradol (RSV) ar gyfer y rhai sy'n troi'n 75 oed (carfan arferol blwyddyn gyntaf) | Chwefror 26 | 70% | 59.7% | **Chwef 26** | **Meh 26** | | |
| | | | | | 59.7% | 68.1% | | |



# Diabetes

*Mesur Fframwaith Perfformiad GIG Cymru*

| Rhif | Mesur perfformiad | Cyfnod a Adroddwyd | Safon Perfformiad | Perfformiad yn ystod y Mis | Tuedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mawrth 26 | Ebrill 26 | Mai 26 | Mehefin 26 |
| 9. | Canran y cleifion (12 oed a throsodd) â diabetes y cofnodwyd gwyliadwriaeth traed arnynt o fewn y 15 mis diwethaf | Mehefin 26 | 80% | 68.32% | 69.52% | 68.66% | 68.64% | 68.32% |
| 10. | Canran y cleifion (12 oed a throsodd) â diabetes y mae eu halbwmin wrin wedi'i gofnodi o fewn y 15 mis diwethaf | Mehefin 26 | 80% | 65.83% | 64.68% | 64.73% | 65.21% | 65.83% |

| | Cymraeg |
|---|---|
| Slide 2 - COVID-19 data table image | • Tabl 2b. Cwmpas ymgyrch brechu COVID-19 y Gwanwyn 2026 yn y boblogaeth gymwys, gan gyfrif y rhai oedd yn fyw ac yn byw yng Nghymru ar 02/07/2026, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol preswyl.<br>• Bwrdd Iechyd Lleol preswyl<br>• Poblogaeth gymwys (n)<br>• Wedi'u brechu (n)<br>• Cwmpas (%)<br>• O'r rhai a gafodd eu brechu, nifer heb ddosau blaenorol (n) |
| Slide 2 - influenza data table image | • Tabl 4.3.2 Nifer y cleifion 65 oed a hŷn a gafodd eu brechu rhag y ffliw yng Nghymru ar gyfer tymor 2025/26, yn ôl bwrdd iechyd lleol, gan gymharu cleifion yn y cwintelau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig o ardaloedd.<br>• Enwadur (n)<br>• Rhifiadur (n)<br>• Y nifer a gafodd eu brechu (%)<br>• Y nifer a gafodd eu brechu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (%)<br>• Y nifer a gafodd eu brechu yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (%)<br>• % Bwlch |
| Slide 2 - RSV data table image | • Tabl 1.1.3 Nifer y rhai a gafodd imiwneiddiad RSV ymhlith y rhai a gyrhaeddodd eu pen-blwydd yn 75 oed rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025 (carfan reolaidd blwyddyn gyntaf), yn ôl Awdurdod Lleol preswyl.<br>• Awdurdod Lleol preswyl<br>• Nifer a gafodd imiwneiddiad RSV |
| Slide 3 - immunisation trend graphs | • Yn gyfredol yn 5 oed / Yn gyfredol erbyn 5 oed<br>• HPV erbyn 15 oed<br>• Dyddiad<br>• BIPCAF<br>• Cymru Gyfan |
| Slide 4 - healthy weight graph | • Rhaglen Mesur Plant Caerdydd a Bro Morgannwg - Tuedd Pwysau Iach - Plant Blwyddyn Derbyn<br>• BIP Caerdydd a'r Fro<br>• Caerdydd a Bro Morgannwg<br>• Cymru |
| Slide 6 - smoking cessation graphs | • Canran gronnus o boblogaeth ysmygu amcangyfrifedig CAF a wnaeth ymgais i roi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu ('ysmygwyr a gafodd driniaeth')<br>• Canran o ysmygwyr Caerdydd a'r Fro oedd yn 'ysmygwyr a gafodd driniaeth' a gafodd eu dilysu gan CO fel rhai a lwyddodd i roi'r gorau iddi 4 wythnos ar ôl y dyddiad rhoi'r gorau iddi<br>• 2025/2026<br>• 2024/2025<br>• Targed |

